



# Beth yw ei henw ?

Un diwrnod, dan un o furiau Amgueddfa Forwrol Llŷn, darganfuwyd ....sgerbwd ! Sgerbwd dros 800mlwydd oed a oedd yn fyw yn Oes y Tywysogion. Mae gwyddonwyr wedi profi mai DYNES oedd y sgerbwd—ac mae sgerbydau benywaidd o'r cyfnod yna yn brin. Ar hyn o bryd, diolch i grantiau gan Gronfa Dreftadaeth a Garfield Weston, rydym yn gweithio ar brosiect fydd yn arddangos y sgerbwd a'i bedd cist cerrig unigryw yma yn yr Amgueddfa ei hun, ac yn dweud hanes y sgerbwd wrthych.

Wyddoch chi, mae profion gwyddonol yn gallu dweud llawer o bethau am y ddynes—ei hoed, ei hoff fwyd—ond dydyn nhw ddim yn gwybod beth oedd ei henw. Wnewch chi ein helpu ?

Dyma restr o enwau poblogaidd i ferched yng Nghymru 'r 12fed ganrif :

ANGHARAD

DYDDGU

ETHI

GWEIRFUL

GWENHWYFAR

GWLADUS

HAWYS

MADRUN

NÊST

RHIANNON

SENENA

TANGWYSTL

## Cystadleuaeth

### Rhowch enw i'n Sgerbwd !

### Dyma sut y gellwch helpu :

1. Dewiswch eich hoff enw o'r rhestr ar y chwith.
2. Anfonwch ebost fel hyn:

At : [aflmm@yahoo.com](mailto:aflmm@yahoo.com)

Pwnc : Enwi'r Sgerbwd

Helo !

Dw i'n dewis ..... yn enw i Sgerbwd Nefyn.

3. Cofiwch roi eich enw CHI hefyd cyn pwysu

**ANFON !**

#### Noder :

Mae'r gystadleuaeth yn agored i bawb. Dyddiad cau : Sulgwyn 2021.

Dewisir yr enw sy'n cael y mwyaf o bleidleisiau yn enw bedydd y Sgerbwd i'w ddefnyddio yn y dyfydol .

Cyhoeddir enw'r Sgerbwd yn Llanw Llŷn ac ar wefan yr Amgueddfa ([www.llyn-maritime-museum.co.uk](http://www.llyn-maritime-museum.co.uk))

Rhoddir enwau pawb a bleidleisiodd dros yr enw buddugol mewn het a dewis dau/dwy i dderbyn gwobr.

